
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 101 (Cy. 27)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M4
(Cyffordd 28 (Parc Tredegar) i
Gyffordd 24 (Coldra)) (Terfyn
Cyflymder 50 mya) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn cyflymder uchaf o 50 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cenedlaethol) ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Casbach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 101 (Cy. 27)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Rheoliadau Traffordd yr M4
(Cyffordd 28 (Parc Tredegar) i
Gyffordd 24 (Coldra)) (Terfyn
Cyflymder 50 mya) 2021**

Gwnaed 29 Ionawr 2021

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 2 Chwefror 2021

Yn dod i rym 28 Chwefror 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 17(2), (3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw sefydliadau cynrychioliadol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(10) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 28 (Parc Tredegar) i Gyffordd 24 (Coldra)) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2021, a deuant i rym ar 28 Chwefror 2021.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "traffordd yr M4" yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gosod terfyn cyflymder

2. Ni chaiff neb yrru cerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen.

(1) 1984 p. 27. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraff 28(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraff 25 o Atodlen 4 ac Atodlen 8 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Mewnosodwyd adran 17(3ZAA) gan adran 26(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

Dirymu

3. Mae Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015(1) drwy hyn wedi eu dirymu.

Ken Skates

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd
Cymru, un o Weinidogion Cymru
29 Ionawr 2021

(1) O.S. 2015/1018 (Cy. 72).

YR ATODLEN Rheoliad 2
Y DARNAU PENODEDIG O
DRAFFORDD YR M4

Y darnau penodedig o draffordd yr M4 yw—

- a) Y darn o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin o bwynt 675 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Trefesgob i Lanfarthin hyd at bwynt 80 metr i'r gorllewin o ganolbwynt tanbont Forge Road.
- b) Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain o bwynt 64 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ymadael tua'r dwyrain cyffordd 28 (Parc Tredegar) hyd at bwynt 229 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ymuno tua'r dwyrain cyffordd 24 (Coldra).
- c) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth gyffordd 24 (Coldra) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain hyd at bwynt 123 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra.
- d) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 24 (Coldra) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin hyd at bwynt 114 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra.
- e) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 24 (Coldra) o bwynt 6 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin.
- f) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 25 (Caerllion) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Caerllion y B4596.
- g) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 25 (Caerllion) o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Caerllion y B4596 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain.
- h) Y darn o'r ffordd gyswllt ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 25A (Grove Park) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A4042.
- i) Y darn o'r ffordd gyswllt ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 25A (Grove Park) o'i

- chyffordd â'r A4042 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain.
- j) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain, gan gynnwys y lôn sy'n troi i'r chwith, wrth gyffordd 26 (Malpas) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051.
- k) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 26 (Malpas) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051.
- l) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 26 (Malpas) o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain.
- m) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 26 (Malpas) o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin.
- n) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth gyffordd 27 (High Cross) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591.
- o) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 27 (High Cross) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591.
- p) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 27 (High Cross) o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain.
- q) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 27 (High Cross) o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin.
- r) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 28 (Parc Tredegar) o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin hyd at bwynt 270 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cyfnewidfa Parc Tredegar.
- s) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 28 (Parc Tredegar) o bwynt 45 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol cylchfan yr

A48/A467 hyd at ei chyffordd â'r brif
gerbyffordd tua'r dwyrain.